

Comisiwn Seilwaith Cenedlaethol Cymru

10 Mawrth 2020
Gerddi Soffia, Caerdydd

Nodyn

CSCC John Lloyd Jones, Cadeirydd Tom Crick, Comisiynydd Stephen Gifford, Comisiynydd Helen Howells, Comisiynydd Rob Irvine, Comisiynydd Eluned Parrott, Comisiynydd Rod Smith, Comisiynydd Chris Sutton, Comisiynydd Emma Thomas, Comisiynydd Tom Wharf, Comisiynydd Ceri Doyle, Comisiynydd	Adrian Davies, Swyddfa CSCC Leri George, Swyddfa CSCC Ar gyfer eitemau 2 – 5: John Howells, Cyfarwyddwr Newid Hinsawdd, Ynni a Chynllunio, Llywodraeth Cymru Ymddiheuriadau Richard Feasey, Comisiynydd
--	--

1. Trafnidiaeth

Trafododd y Comisiynwyr bapur trafndiaeth a chytuno ar newidiadau y mae angen eu gwneud i'r papur.

Camau i'w cymryd

Papur i'w ail-ddrafftio yna ei anfon at randdeiliaid. I'w hychwanegu: crynodeb a mwy o fanylion ar weledigaeth a newid ymddygiad: Adrian Davies a Rob Irvine

2. Cyllideb CSCC a swydd y Cadeirydd

Hysbysodd y Cadeirydd y comisiynwyr ei fod wedi cytuno i gais y Gweinidog iddo aros ymlaen fel cadeirydd dros dro tan fis Tachwedd 2020. Mae cais ar gyfer cyllideb CSCC am 2020-2021 gyda gweinidogion i'w gymeradwyo.

Bydd rôl y cadeirydd yn cael ei ail-hysbysebu gyda mwy o bwyslais ar yr angen i benderfyniadau ynghylch seilwaith gyd-fynd yn agosach ag amcanion Cymru ar gyfer datgarboneiddio.

3. Ynni

Ystyriodd y Comisiynwyr y papur ar ynni a chytuno ar rai meysydd i'w ail-ddrafftio.

Camau i'w cymryd

Ail-ddrafftio'r papur a'u dosbarthu er mwyn trafod eto: Adrian Davies

4. Creu Lleoedd

Cytunodd y comisiynwyr i gofrestru i'r siartr Creu lleoedd.

Camau i'w cymryd

*Hysbysu'r Bartneriaeth Creu Lleoedd o benderfyniad y Comisiwn.
Danfon manylion ar y lansiad i bob comisiynydd: Ceri Doyle*

5. Dŵr

Adroddodd y Cadeirydd ac Adrian Davies yn ôl ar y digwyddiad Aml-Sector a drefnwyd gan Arup a'r cyfarfod gyda Rhodri Williams (Cadeirydd CCW). Trafododd y Comisiynwyr wytnwch y seilwaith dŵr a throsglwyddo ac echdynnu dŵr. Disgwylir cyfarwyddebau dŵr yr UE a strategaeth llifogydd Llywodraeth Cymru i gael eu cyhoeddi'n fuan a byddant yn cael dylanwad ar y drafodaeth.

Camau i'w cymryd

Darganfod pryd fydd ymgynghoriad Ofwat ar PR24: Adrian Davies

6. UFA

Bydd y cyfarfod nesaf ar 21 Ebrill. Bydd staff o Adran Gynllunio'r Llywodraeth yn mynychu i drafod fersiwn nesaf y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol ac adrodd yn ôl arno. Trafodwyd cyfarfod drwy Skype/Zoom yng ngoleuni coronafirws.